# Deddf Tai (Cymru) 2014

**2014 dccc 7**

**RHAN 2**

DIGARTREFEDD

**PENNOD 2**

CYMORTH I BOBL SY'N DDIGARTREF NEU
O DAN FYGYTHIAD O DDIGARTREFEDD

*Cyflwyniad*

**53 Trosolwg o'r Bennod hon**

(1) Mae'r Bennod hon yn rhoi dyletswyddau ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo pobl sy'n ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd ac yn gwneud darpariaeth cysylltiedig.

(2) Mae adrannau 55 i 59 yn diffinio ac yn egluro fel arall ystyr rhai termau allweddol (ceir darpariaeth bellach ynghylch dehongli a mynegai o'r termau a ddiffinnir yn y Bennod hon yn adran 99).

(3) Mae adran 60 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau tai lleol sicrhau y darperir gwasanaeth sy'n darparu gwybodaeth a chyngor sy'n gysylltiedig â digartrefedd i bobl ynghyd â chynhorthwy i gael gafael ar gymorth o dan y Bennod hon.

(4) Mae adran 61 yn cyflwyno Atodlen 2 sy'n gwneud darpariaeth ynghylch cymhwyster i gael cymorth o dan y Bennod hon.

(5) Mae adran 62 yn gosod dyletswydd ar awdurdod tai lleol i asesu achosion pobl ("ceiswyr") sy'n gwneud cais i'r awdurdod am lety, neu am gymorth i gadw neu gael gafael ar lety, pan fo'n ymddangos i'r awdurdod eu bod yn ddigartref neu o dan fygythiad o ddigartrefedd.

***Statws*** *Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015.*
***Newidiadau i ddeddfwriaeth:*** *Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 53. (See end of Document for details)*

(6) Mae adran 63 yn darparu ar gyfer rhoi hysbysiad i geiswyr ynghylch canlyniad yr asesiad.

(7) Mae adran 64 yn rhoi enghreifftiau o'r mathau o ffyrdd y caniateir arfer y dyletswyddau dilynol i sicrhau neu gynorthwyo i sicrhau bod llety ar gael a beth y caniateir ei wneud er mwyn eu harfer; ac mae adran 65 yn egluro beth y mae "cynorthwyo i sicrhau" yn ei olygu.

(8) Mae adrannau 66 i 79 yn nodi'r prif ddyletswyddau sydd ar awdurdodau tai lleol i gynorthwyo ceiswyr, yr amgylchiadau pan fo'r dyletswyddau hynny'n dod i ben a darpariaeth gysylltiedig; y prif ddyletswyddau yw—

(a) dyletswydd i gynorthwyo i atal ceiswyr sydd o dan fygythiad o ddigartrefedd rhag dod yn ddigartref (adran 66);

(b) dyletswydd i sicrhau llety interim ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol (adran 68) (mae adran 70 yn darparu ar gyfer pwy sydd i gael angen blaenoriaethol am lety at ddibenion y Bennod);

(c) dyletswydd i gynorthwyo i sicrhau bod llety addas ar gael i geiswyr digartref ei feddiannu (adran 73);

(d) dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol pan fydd y ddyletswydd yn adran 73 yn dod i ben (adran 75).

(9) Mae adran 78 yn darparu ar gyfer yr amgylchiadau hynny pan gaiff awdurdodau tai lleol roi sylw i ba un a ddaeth ceisydd yn ddigartref yn fwriadol ai peidio wrth benderfynu a yw dyletswydd i sicrhau llety ar gyfer ceiswyr mewn angen blaenoriaethol yn gymwys; mae adran 77 yn darparu ar gyfer ystyr bod yn ddigartref yn fwriadol.

(10) Mae adrannau 80 i 82 yn darparu y caiff awdurdodau tai lleol ddod â'u dyletswydd i geisydd i ben drwy gyfeirio eu hachosion at at awdurdodau eraill yng Nghymru neu Loegr, pan fo gan y ceiswyr gysylltiad lleol ag ardaloedd yr awdurdodau eraill hynny; mae adran 81 yn diffinio ystyr "cysylltiad lleol" at ddibenion y Bennod hon.

(11) Mae adrannau 85 i 89 yn darparu ar gyfer adolygiadau ac apelau.

(12) Mae adrannau 90 i 99 yn gwneud darpariaeth atodol a chyffredinol.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 53 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 145(3)**

**I2** A. 53 mewn grym ar 27.4.2015 gan O.S. 2015/1272, ergl. 2, **Atod. para. 4**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 27/04/2015.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Tai (Cymru) 2014, Adran 53.